



## Taflen waith 8 – Dal yr Arlywydd i gyfrif

Darllenwch y detholiad yma ar yr ‘Adran Weithredol Unedol’ ac yna atebwch y cwestiynau sy’n dilyn.

Trafodwch y datganiadau canlynol gan yna ystyried pa un ydy’r mwyaf effeithiol i ddwyn yr arlywydd i gyfrif:

1. Y Gyngres
2. Y Goruchaf Lys
3. Barn y cyhoedd a’r cyfryngau

Gall **Y Gyngres** ddefnyddio ei bwerau cyfansoddiadol i wrthod rhaglen deddfwriaethol yr arlywydd neu ymwrthod â gwharddiadau arlywyddol sy’n ymwneud â deddfwriaeth y mae wedi’i basio. Gall gyfyngu ar yr Adran Weithredol drwy ei bŵer ariannol. Mae gweithrediadau’r arlywydd fel Pencadfridog yn atebol trwy’r deddf *War Powers*. Mae gan y Senedd bŵer i atal enwebiadau arlywyddol ac i wrthod cytundebau. Mae gan y Gyngres bwerau ymchwilio eang i ddwyn yr Adran Weithredol i gyfrif, ac, mewn achosion eithafol, yn gallu uchelgyhuddo’r arlywydd am “droseddau uwch a chamymddwyn”.

Gall **y Goruchaf Lys** ddatgan bod gweithrediadau arlywyddol yn anghyfansoddiadol. Arweiniodd dyfarniad y Llys yn yr achos *United States v. Richard Nixon* (1974), at orfodi Nixon i ryddhau tapiau Watergate a’i ymddiswyddiad cyn iddo gael ei uchelgyhuddo. Yn achos *Rasul v. Bush* (2004), dyfarnodd y Llys bod hawl gan y rhai a garcharwyd ym Mae Guantanamo i herio’u carchariad yn y llysoedd federal ac yn *Hamdan v. Rumsfeld* (2006), dyfarnwyd y comisiynau milwrol a ffurfiwyd i ddwyn carcharorion Guantanamo o flaen eu gwell yn anghyfansoddiadol.

**Barn y bobl a’r cyfryngau:** Mae barn ffafriol y bobl yn hanfodol wrth gynnal pŵer a hygredd arlywyddol. Gwelir tystiolaeth o hyn pan mae barn y bobl wedi troi yn erbyn “rhyfeloedd arlywyddol”. Gadawodd Truman, Johnson, Nixon a George W. Bush yr arlywyddiaeth gyda’u henw da fel gwleidyddion wedi’i niwedio yn sgil rhyfeloedd Corea, Fietnam, Afghanistan ac Irac. I’r gwrthwyneb, goroesodd Arlywyddion Reagan a Clinton scandalau tra roedden nhw yn y swydd, yn rhannol oherwydd eu poblogrwydd. Mae’r wasg â dylanwad ar farn y bobl: mae argaeledd ffynonellau cyfryngol di-ri a darllediadau newyddion pob awr o’r dydd yn golygu ei bod yn anodd i arlywyddion reoli eu delwedd.